OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 Rhif 1646 (Cy.159)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

### BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau yn rhoi ar waith, o ran Cymru, Benderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L244, 7.9.2006, t.27) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2006/601/EC sy'n ymwneud â mesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L52, 27.2.2008, t.25).

Mae'r Rheoliadau hyn—

(1) yn diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau i gywiro gwall teipograffyddol; a

(2) yn diwygio rheoliadau 4 a 5 o'r prif Reoliadau i ddileu geiriau diangen.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 2008 No. 1646 (W.159)

## AGRICULTURE, WALES

### FOOD, WALES

# The Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2008 ("the principal Regulations").

The principal Regulations implement in relation to Wales Commission Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products (OJ No. L244, 7.9.2006, p.27) as last amended by Commission Decision 2008/162/EC amending Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding the non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products (OJ No. L52, 27.2.2008, p.25).

These Regulations—

(1) amend regulation 2 of the principal Regulations to correct a typographical error; and

(2) amend regulations 4 and 5 of the principal Regulations to remove unnecessary wording.

No regulatory impact assessment has been prepared in relation to these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1646 (Cy.159)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mehefin 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *24 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym* | *17 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol ar fwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid neu y porthir anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ag ef(**2**).

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2008.

(3) Yn y rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2005/1971. Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan adrannau 58 a 59 o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1646 (W.159)

# AGRICULTURE, WALES

## FOOD WALES

# The Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 June 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *24 June 2008* |
| *Coming into force* | *17 July 2008* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(**2**).

**Title, commencement, interpretation and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2008.

(2) These Regulations come into force on 17 July 2008.

(3) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2005/1971. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by sections 58 and 59 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**1**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2**. Diwygir y Prif Reoliadau yn unol â'r paragraffau canlynol—

(a) yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y diffiniad o "awdurdod bwyd anifeiliaid" yn lle "adran 67(1)" rhodder "adran 67(1A)";

(b) ym mharagraff (1) o reoliad 4 (gorfodi) hepgorer y geiriau "neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth,"; ac

(c) yn rheoliad 5 (cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990) ym mharagraff (c) (sy'n ymwneud ag adran 32 - pwerau mynediad) hepgorer y geiriau "neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth".

on the Market) (Wales) Regulations 2008(**1**).

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the principal Regulations**

**2**. The principal Regulations are amended in accordance with the following paragraphs—

(a) in regulation 2(1) (interpretation) in the definition of "feed authority" for "section 67(1)" substitute "section 67(1A)";

(b) in paragraph (1) of regulation 4 (enforcement) omit the words "or as the case may be district"; and

(c) in regulation 5 (applications of various provisions of the Food Safety Act 1990) in paragraph (c) (which relates to section 32 - powers of entry) omit the words "or as the case may be district".

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Mehefin 2008

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

23 June 2008

(**1**) O.S 2008/781 (Cy.80).

(**1**) S.I. 2008/781 (W.80).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1646 (Cy.159)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

### BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1646 (W.159)

## AGRICULTURE, WALES

### FOOD, WALES

The Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W334/07/08 ON